

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 29ain Dachwedd 2016

Presennol -Hefin Edwards Cadeirydd, Menai Hughes, Prys Ellis, John D Jones, Alun Jones, Cyng Peter Lewis Cyng BS Conwy, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau - Guto Jones, Einion Edwards, Ffuon Williams, Helen Ellis, Ieuan Jones.
Datgan diddordeb.
Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 25ain Hydref 2016.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Nodwyd adroddiad Sgt Martin Jones fel a ganlyn;

[a] Bod ymholiadau'n parhau i drosedd yn y pentref noswaith Sioe ar y 5ed Fedi.

[b] Mae'r heddlu'n parhau i geisio atal gyrru'n wrthgymdeithasol yn y pentref.

[c] Mae cyfle i rywun sydd â diddordeb gymryd rhan yn y cynllun Gwyllo Cyflymder yn y Gymuned.

[d] Mae'r heddlu'n ceisio ariannu camerâu symudol [£180.00 yr un] i'w gosod mewn mannau lle mae pryder gan y cyhoedd.

Penderfynwyd cyfrannu £360.00 tuag at ddau gamera.

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Dywedodd y clerch nad oedd ateb wedi ei dderbyn gan Elwyn Williams. Y clerch i gysylltu ymhellach.

[1.2] Dwr Cymru/ Byngalo'r Alwen/ Lluniau/Arteffactau

Dywedodd y clerch bod Mrs Arfona Evans yn mynd i wneud ymholiadau.

[1.3] Warden y Ganolfan/Camerâu Cylch Agos

Deallwyd bod cais am grant wedi ei wrthod. Cytunodd y Cyng Peter Lewis i anfon gwybodaeth pellach i Mrs Rhian Ellis ynglŷn â ffynonellau eraill ar gyfer grantiau.

[1.4] Llythyr Ms Helen Williams/ Cais I brynu darn o Gae Chwarae, Cae Llwyd

Dywedodd y clerch nad oedd gair pellach gan Ms Helen Williams

[1.5] Llwybr o gyferbyn a'r Ysgol i groesffordd Cefn-Brith

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.6] Tai Gwag/Cartrefi Conwy.

Dywedodd y clerch ei fod yn trefnu i swyddog o Gartrefi Cymru fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor.

[1.7] Maes y Ffynnon

Dyweddodd y clerc bod Cartrefi Conwy wedi addo i osod y goleuadau solar cyn diwedd yr wythnos.

Y brif Agenda

[1.8] Cau Iard y Cyngor yn y Pentref

Dyweddodd y Cyng Peter Lewis bod y Cyngor Sir yn bwriadu cynnal ymgyngoriad ynglun a chau'r iard.

[1.9] Gwasanaeth Sul y Cofio

Dyweddodd y clerc iddo dderbyn nifer o gwynion ynglun a threfn y gwasanaeth, yn arbennig nad oedd unrhyw ran o'r gwasanaeth yn Gymraeg.

Cytunodd y Cyng Peter Lewis i wneud ymholiadau.

[2] Y Gyllideb.

Rhoddwyd sylw i adolygiad o'r gyllideb a baratowyd gan y clerc. Penderfynwyd cymeradwyo'r ddogfen

[2.1] Ymddiswyddiad

Eglurodd y Cyng Alun Jones ei fod yn ymddiswyddo o'r Cyngor gan ei fod yn symud o'r ardal i Fae Penrhyn ger Llandudno. Diolchwyd iddo gan y Cadeirydd am ei ffyddlondeb a'i wasanaeth i'r gymuned gan ddymuno hefyd pob hapusrwydd iddo a Mrs Jones yn ei cartref newydd.

Cadeirydd _____